



## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

### ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

#### CYNIGION I AD-DREFNU DARPARIAETH DOSBARTHIAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF

##### 1. Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 011/2018. Ei ddiben yw:

- Llywio canlyniad cyhoeddi'r hysbysiadau statudol a gafodd eu cyhoeddi ar gyfer y cynnig yma ar 10 Hydref 2023 am gyfnod o o leiaf 28 diwrnod; a
- Rhoi manylion am y themâu allweddol yr holl wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law ac ymateb yr awdurdod lleol iddyn nhw.

##### 2. Yr Hysbysiadau Statudol

Dyma'r Hysbysiadau Statudol er mwyn bwrw ymlaen â phob cynnig unigol, a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2023:

**Cynnig 1:** Symud y dosbarth cynnal dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o fis Ebrill 2024.

### Hysbysiad Statudol

#### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu Arsylwi ac Asesu a newid y ddarpariaeth o Ysgol Gynradd Penrhiwceiber, Stryd yr Eglwys, Penrhiwceiber, Aberpennar, CF45 3YD i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghoriadauysgolion).

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Mae 123 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 141 o leoedd yn yr ysgol. Unwaith i'r cynllun gael ei weithredu, bydd 141 o leoedd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Gwynor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

### **Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Y farn yw nad yw lleoliad y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas erbyn hyn i fodloni anghenion y cwricwlwm newydd o fewn amgylchedd cwbl hygrych.

## **Hysbysiad Statudol**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, 26 Heol Ynysmeurig, Aberpennar, CF45 4SY drwy gynnig 8 lle i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) mewn Dosbarth Arsylwi ac Asesu. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion).

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Mae 329 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 325 o leoedd yn yr ysgol. Unwaith i'r cynllun gael ei weithredu, bydd 325 o leoedd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Gwynor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

### **Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.

2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddosbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Bydd y newid arfaethedig yma'n cyfrannu at ddarpariaeth well ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen sydd ag anghenion sylweddol.

**Cynnig 2:** Trosglwyddo'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 3-6 ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Medi 2024.

## **Hysbysiad Statudol**

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Dyma roi hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth o Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, 26 Heol Ynysmeurig, Abercynon, Aberpennar, CF45 4SY i Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion).

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Mae 329 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 325 o leoedd yn yr ysgol. Unwaith i'r cynllun gael ei weithredu, bydd 325 o leoedd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Gwynor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

### **Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Bydd gan Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon ddau ddsbarth cynnal dysgu er mwyn gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen ac oed cyn ysgol statudol gydag anghenion sylfaenol.

## **Hysbysiad Statudol**

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Dyma roi hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Rhondda Cynon Taf, ar ôl ymgynghori â phobl berthnasol, yn cynnig adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth o Ysgol Gynradd Perthcelyn, Stryd Morgannwg, Perthcelyn, Aberpennar, CF45 3RJ trwy ddarparu 10 lle i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen (blynyddoedd 3-6) ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion).

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Mae 113 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 160 o leoedd yn yr ysgol. Unwaith i'r cynllun gael ei weithredu, bydd 160 o leoedd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Gwynor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

### **Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol ar safle ysgol hygyrch unigol i ddisgyblion ag ASA.

**Cynnig 3:** Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.

## Hysbysiad Statudol

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef , yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, 26 Heol Ynysmeurig, Aberpennar, CF45 SY drwy gynnig 8 lle i ddisgyblion y Blynyddoedd Cynnar o dan oedran ysgol statudol mewn dosbarth Asesu ac Ymyrraeth. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion).

Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 1 Ebrill 2024.

Mae 329 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 325 o leoedd yn yr ysgol. Unwaith i'r cynllun gael ei weithredu, bydd 325 o leoedd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Cyngor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

**Nodyn Esboniadol**



1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Bydd y newidiadau arfaethedig yn darparu gwell darpariaeth yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion amlwg sylweddol.

**Cynnig 4:** Sefydlu dau ddsbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen (YGG Awel Taf) ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol, i ddod i rym o fis Medi 2024.

## Hysbysiad Statudol

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd (YGG Awel Taf) yn Rhydfelen, Pontypridd trwy ddarparu 18 lle i ddisgyblion y Blynyddoedd Cynnar o dan oedran ysgol statudol mewn dosbarth Asesu ac Ymyrraeth. Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu erbyn Medi 2024 a bydd yn cael ei chynnal gan Rondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion).

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Ar hyn o bryd does dim modd rhagamcanu niferoedd disgyblion a rhagweld gwybodaeth ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Capasiti'r ysgol yw 540 disgybl. Mae cynllunwyr yr adeilad newydd wedi ystyried y cynnig am Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu wrth lunio ei gapasiti.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.



Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2023.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Cyngor Dines*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

### **Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Mae angen ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol yn yr Awdurdod Lleol.
4. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol ar safle ysgol hygyrch unigol.

**Cynnig 5:** Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 7-11 ag ASA yn Ysgol Afon Wen, yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o fis Medi 2024.

## Hysbysiad Statudol

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig sefydlu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr ysgol pob oed newydd, Ysgol Afon Wen, Lôn yr Ysgol, Y Ddraenen-wen, Pontypridd, CF37 5AL trwy ddarparu 14 lle i ddisgyblion cyfnodau allweddol 3/4 gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD). Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael drwy [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion)

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2024.

Ar hyn o bryd does dim modd rhagamcanu niferoedd disgyblion a rhagweld gwybodaeth ar gyfer yr ysgol pob oed newydd. Capasiti'r ysgol yw 1,260 disgybl. Mae cynllunwyr yr adeilad newydd wedi ystyried y cynnig am Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu wrth lunio ei gapasiti.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 6 Tachwedd 2024.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

*Gwynor Davies*

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad: 10 Hydref 2023

**Nodyn Esboniadol**

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddsbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Mae angen ehangu darpariaeth ASA cyfnodau allweddol 3/4 yn yr Awdurdod Lleol.

### 3. Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol, derbyniwyd 7 gwrthwynebiad mewn perthynas â **Chynnig 2** (trosglwyddo dosbarthiadau cynnal dysgu i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 ag ASA yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i sefydlu darpariaeth pob oed cyfnod sylfaen yn Ysgol Gynradd Perthcelyn erbyn mis Medi 2024) erbyn y dyddiad cau, sef 6 Tachwedd 2023.

Doedd dim gwrthwynebiadau i gynigion 1,3,4 na 5. Mae themâu allweddol y gwrthwynebiadau wedi'u cynnwys isod, ynghyd ag ymatebion y Cyngor iddyn nhw.

### 4. Themâu Allweddol y Gwrthwynebiadau ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae themâu allweddol y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol wedi cynnwys yn y tabl isod:

Thema Allweddol y Gwrthwynebiadau	Ymateb yr Awdurdod Lleol
<b>Adnoddau'r gymuned / cynnig y cwricwlwm</b>	Mae'r gwrthwynebiadau wedi pwysleisio'r pryder am fuddion canfyddiedig i un gymuned o'i chymharu â'r llall. Mae'n ofynnol i bob ysgol ddatblygu eu cwricwlwm unigol gan adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael yn ardal yr ysgol yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Oherwydd y gofyniad yma bydd pob cwricwlwm yn unigryw i bob lleoliad ond disgwylir cysondeb o ran y cyfleoedd dysgu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael mewn dosbarthiadau cynnal dysgu a thu hwnt.
<b>Aflonyddu disgyblion/cymorth pontio</b>	Mae'r holl asesiadau effaith gofynnol wedi'u cynnal, ac mae'n anochel y bydd ail-alinio'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn achosi rhywfaint o aflonyddwch ac ansicrwydd i rieni a disgyblion am gyfnod o amser, er bod profiad o

	<p>ail-alinio blaenorol y dosbarthiadau cynnal dysgu wedi bod yn gadarnhaol. Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn darparu cymorth i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl. Bydd hyn yn golygu cydweithio rhwng staff presennol y dosbarthiadau cynnal dysgu, staff Mynediad a Chynhwysiant, disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion addysgol a lles disgyblion.</p> <p>Gan y bydd staff presennol y dosbarth cynnal dysgu yn symud gyda'r disgyblion, byddan nhw'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau bod proses bontio gadarn yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod yna barhad yn y staffio a chymorth i ddisgyblion i gefnogi eu darpariaeth addysgol a lles. Bydd y dosbarth cynnal dysgu yn parhau i gael ei fonitro ar y cyd gan yr ysgol a'r ALI trwy ei brotocol sicrhau ansawdd.</p>
<b>Rhieni'n gwrthod yr adleoli</b>	Os bydd rhieni yn gwrthwynebu adleoli darpariaeth eu plant i ddosbarthiadau cynnal dysgu arfaethedig Perthcelyn, bydd modd archwilio lleoliadau prif ffrwd wedi'u cynnal mewn lleoliadau presennol mewn partneriaeth â'r ysgol a staff Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.
<b>Proses ymgynghori ac adrodd ar sylwadau/cyflwyniadau</b>	Mae pryderon am gofnodi llofnodion deisebau, diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu gan swyddogion Mynediad a Chynhwysiant eisoes wedi'u codi ac rydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw. Sicrhawyd rhanddeiliaid bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.
<b>Teithio</b>	Fel adroddwyd yn flaenorol, bydd trafndiaeth yn cael ei darparu yn unol â'r Polisi Teithio gan Ddisgyblion.